Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Pam y gwnaethom ysgrifennu'r fframwaith

Mae'r dudalen hon yn esbonio pam y gwnaethom ysgrifennu'r fframwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/pam-y-gwnaethom-ysgrifennur-fframwaith am y fersiwn diweddaraf.

Mae'r dudalen hon yn esbonio pam y gwnaethom ysgrifennu'r fframwaith.

Mae'r fframwaith hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu yn helpu ymarferwyr i weithredu:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddfwriaeth Deddf Plant 1989
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- y canllawiau diogelu statudol.

Fe ysgrifennom y fframwaith er mwyn:

- hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o egwyddorion, rolau a chyfrifoldebau diogelu
- hyrwyddo diwylliant o ddysgu a datblygu sy’n amlygu gwybodaeth a sgiliau’r ymarferydd
- lledaenu dysgu oddi wrth:
  - Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (bydd y rhain yn disodli adolygiadau ymarfer oedolion, adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau lladdiadau domestig, adolygiadau lladdiadau iechyd meddwl ac adolygiadau lladdiadau gydag arfau ymosodol)
  - adolygiadau rheoli achos, pan fo angen.

- helpu i wneud sefydliadau'n fwy effeithlon
- gwneud y mwyaf o ymrwymiadau i gydweithio trwy hyfforddiant, dysgu a datblygiad aml-asiantaeth
- gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gomisiynu hyfforddiant, dysgu a datblygiad arbenigol a phwrpasol
- cefnogi rhanbarthau a sefydliadau i nodi adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno neu gomisiynu hyfforddiant, dysgu a datblygu newydd.

Mae angen i sefydliadau ddefnyddio'r fframwaith er mwyn:

- gwneud yn siŵr bod yna ddull cenedlaethol cyson o hyfforddi, dysgu a datblygu
- cefnogi rhanbarthau a sefydliadau i nodi adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno neu gomisiynu hyfforddiant, dysgu a datblygu newydd
- sicrhau bod pobl yn cael yr hyfforddiant, y dysgu a'r datblygiad cywir ar yr amser cywir (gan gynnwys cyfleoedd cynefino a gloywi)
- cefnogi datblygiad cymwyseddau ym maes diogelu
- dod o hyd i ffyrdd newydd o hyfforddi, dysgu a datblygu sy'n bodloni anghenion gweithlu cynyddol ystwyth
- datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno hyfforddiant, dysgu, addysgu a datblygu i ddiwallu anghenion gweithlu cynyddol ystwyth
- datblygu ffordd gyson o wirio pa mor effeithiol yw hyfforddiant, dysgu a datblygiad diogelu, a pha mor dda y caiff ei wneud.

# Y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae'r dudalen hon yn esbonio beth yw'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a'u cyfrifoldebau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/y-byrddau-diogelu-rhanbarthol am y fersiwn diweddaraf.

Mae'r dudalen hon yn esbonio beth yw'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a'u cyfrifoldebau.

Mae’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn gweithredu o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae’r fframwaith hwn yn galluogi’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd y Byrddau yn:

- mabwysiadu'r safonau a'u cynnwys mewn polisïau a phrosesau diogelu rhanbarthol
- atgyfnerthu sut y dylid defnyddio'r safonau i ddylunio, datblygu, cyflwyno, monitro a gwerthuso hyfforddiant, dysgu a datblygiad
- annog defnydd o'r safonau a'r fframwaith i osod disgwyliadau clir ar gyfer darparwyr hyfforddiant, dysgu a datblygiad
- bod yn gyfrifol am nodi hyfforddwyr priodol, hyderus, cymwys a phrofiadol i ddarparu'r rhaglenni dysgu.

Gallwch ddod o hyd i restr lawn o swyddogaethau’r Byrddau ar wefan GOV.UK: Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

# Ymadroddion rydyn ni wedi'u defnyddio yn y fframwaith

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/ymadroddion-rydyn-ni-wediu-defnyddio-yn-y-fframwaith am y fersiwn diweddaraf.

Mae’r ymadroddion yn y safonau a’r fframwaith yn cyd-fynd â’r rhai a ddefnyddiwn yng *Ngweithdrefnau Diogelu Cymru* a’r safonau hyfforddiant:

- mae ‘diogelu pobl’ yn golygu plant, pobl ifanc hyd at 18 oed ac oedolion sy’n wynebu risg.
- ystyr ‘ymarferydd’ yw unrhyw un sydd mewn gwaith cyflogedig yn ogystal â gwirfoddolwyr di-dâl.

# Ar gyfer pwy mae'r fframwaith hwn

Mae'r dudalen hon esbonio pwy ddylai defnyddio'r fframwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/ar-gyfer-pwy-maer-fframwaith-hwn am y fersiwn diweddaraf.

Mae'r dudalen hon esbonio pwy ddylai defnyddio'r fframwaith.

Mae'r fframwaith hwn ar gyfer:

- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- ymarferwyr diogelu sydd â chyfrifoldebau polisi
- pobl sy'n comisiynu hyfforddiant diogelu, gan gynnwys:
  - timau datblygu'r gweithlu neu bobl
  - adrannau hyfforddi.

- pobl sy'n cynnal hyfforddiant diogelu gan gynnwys ymarferwyr a hyfforddwyr proffesiynol
- cyrff rheoleiddio, megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn
- Swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldebau diogelu
- pobl sy'n comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth
- Unigolion Cyfrifol
- rheolwyr gwasanaethau gofal a chymorth
- ymarferwyr diogelu arbenigol.

Bwriedir i’r fframwaith gael ei ddefnyddio a chyfeirio ato ym mhob sefydliad statudol (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, yr heddlu a’r gwasanaeth prawf) a’r sector gwirfoddol ac annibynnol.

# Canllawiau i sefydliadau

Sut y gallai hyfforddiant, dysgu a datblygu edrych ar gyfer eich sefydliad.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/canllawiau-i-sefydliadau am y fersiwn diweddaraf.

Sut y gallai hyfforddiant, dysgu a datblygu edrych ar gyfer eich sefydliad.

Mae adrannau datblygu a hyfforddi sefydliadol yn chwarae rhan bwysig mewn datblygu ymarferwyr effeithiol.

Mae pob sefydliad yn gyfrifol am gefnogi eu gweithwyr i gael y wybodaeth a'r sgiliau diogelu cywir i gyflawni eu rôl.

Rydym yn cydnabod bod hyfforddiant, dysgu a datblygiad yn broses barhaus ar gyfer ymarferwyr sydd â chyfrifoldebau diogelu.

Yn y fframwaith hwn, bydd angen i bobl sy’n symud heibio grŵp A loywi eu hyfforddiant, dysgu a datblygiad yn y grŵp y maent yn ei gyrraedd yn unig.

Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i ymarferwyr sy’n dechrau rôl newydd ail-wneud hyfforddiant, dysgu a datblygu.

Dylai cyfleoedd fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion yr holl ymarferwyr.

Pan fyddwn yn cynllunio hyfforddiant, dysgu a datblygiad, mae angen i ni ystyried ymarferwyr sydd â nodweddion gwarchodedig a allai effeithio ar y ffordd y maent yn dysgu ac yn datblygu.

Mae gan bob sefydliad ei fframwaith a'i ddogfennau hyfforddi, dysgu a datblygu ei hun.

Mae hyn yn ei gwneud yn heriol i ysgrifennu fframwaith hyfforddi sy'n gweithio i bob sefydliad.

Mae’n bosibl y bydd rhai cyflogwyr angen i grwpiau staff penodol gael eu hyfforddi i lefel uwch na’r hyn a ddisgrifir yn y fframwaith hwn, i ddiwallu anghenion eu sefydliad.

# Cliciwch ar eich math o sefydliad isod i ddarganfod sut y gallai hyfforddiant, dysgu a datblygu edrych ar gyfer eich sefydliad.

**Mae'r asiantaethau wedi rhoi'r wybodaeth hon i ni.**

## Awdurdod lleol

Dangos

Mae gan ymarferwyr awdurdodau lleol anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu tebyg i staff mewn sectorau statudol eraill.

Mae yna wahanol fframweithiau cyfreithiol a phroffesiynol sy'n rheoli'r cyfleoedd a roddir i staff.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Cymru (DGCLl) yw’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer:

- gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth
- trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cyflwyno dull partneriaeth cryfach, mwy cadarn ac effeithiol o ddiogelu.

Mae Codau Ymarfer a chanllawiau statudol yn helpu ymarferwyr i weithio o fewn y fframwaith newydd a grëwyd gan y DGCLl.

Mae angen i hyfforddiant, dysgu a datblygiad diogelu hefyd adlewyrchu *Gweithdrefnau Diogelu Cymru*.

## Addysg

Dangos

Mae gan ymarferwyr yn y gyfarwyddiaeth addysg yr un gofynion hyfforddi â'u cydweithwyr yn yr awdurdod lleol.

Mae ysgolion yn sefydliadau ymreolaethol ac yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn trefnu'r hyfforddiant, y dysgu a'r datblygiad cywir.

Pan fo angen, mae sefydliadau addysg yn cadw, lle bo'n orfodol, at yr amserlenni gofynnol ar gyfer sesiynau gloywi neu ailhyfforddi.

### Health

Dangos

Rhaid i ymarferwyr gofal iechyd feddu ar y cymwyseddau i adnabod oedolion a phlant sydd mewn perygl, ac i gymryd camau effeithiol fel sy'n briodol i'w rôl.

I feincnodi eu hanghenion hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu, mae sefydliadau'r GIG yn defnyddio:

- **Diogelu plant a phobl ifanc: rolau a chymwyseddau ar gyfer staff gofal iechyd – Coleg Nyrsio Brenhinol**
- **Diogelu Oedolion: Rolau a Chymwyseddau ar gyfer Staff Gofal Iechyd – Coleg Nyrsio Brenhinol**
- fframwaith hyfforddiant diogelu GIG Cymru
- **Fframwaith sgiliau craidd y DU 2016 – Skills for Health**

Mae ymarferwyr yn defnyddio e-ddysgu a dysgu wyneb yn wyneb fel y dangosir gan y dogfennau hyn.

### Heddlu

Dangos

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn cytuno ar ofynion hyfforddiant yr heddlu, anghenion ac amserlenni ar gyfer swyddogion heddlu a staff heddlu ym mhob heddlu.

Er cysondeb, mae'r hyfforddiant mewn heddluoedd gwahanol yn debyg iawn.

Mae’n cael ei reoli gan y Coleg Plismona Cenedlaethol ac asiantaethau achrededig eraill.

Mae rhywfaint o hyfforddiant wedi'i deilwra i bob ardal heddlu i sicrhau bod anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn cael eu diwallu.

## Gwasanaethau prawf

Dangos

Rhaid i weithwyr prawf wneud e-ddysgu gorfodol ar ddiogelu plant ac oedolion bob tair blynedd.

Mae Swyddogion y Gwasanaeth Prawf, a phobl sy'n gwneud y Cymhwyster Proffesiynol yn y Gwasanaeth Prawf, yn gwneud hyfforddiant craidd a dysgu gofynnol ym meysydd:

- diogelu plant
- diogelu oedolion
- cam-drin domestig.

Maent yn gwneud yr hyfforddiant yn rhithwir ac wyneb yn wyneb.

Nod y cyrsiau diogelu yw gwneud ymarferwyr yn fwy hyderus a chymwys wrth nodi a rheoli risgiau cymhleth a gwendidau, wrth weithio i fframweithiau cyfreithiol.

Mae’r hyfforddiant yn defnyddio astudiaethau achos i ganolbwyntio ar bryderon diogelu plant ac oedolion cymhleth mewn cyd-destun ymarfer prawf.

Mae’n canolbwyntio ar ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol a dulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae’r hyfforddiant cam-drin domestig:

- yn defnyddio astudiaethau achos i ddatblygu sgiliau chwilfrydedd proffesiynol
- yn hyrwyddo gweithio aml-asiantaeth effeithiol
- yn esbonio sut i sylwi ar risg cam-drin domestig sy'n dod i'r amlwg a'i reoli, ac ystyried y fframwaith ymyrryd ar gyfer cyflawnwyr
- yn amlygu egwyddorion cynllunio diogelwch dioddefwyr effeithiol
- yn cael ei danategu gan y *Fframwaith polisi cam-drin domestig cenedlaethol*.

Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus ei staff.

Mae’n gwerthfawrogi manteision gweithio amlasiantaethol i wneud dysgu a datblygu, y mae’r *Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol* yn ceisio’u cyflawni.

## Trydydd sector

Dangos

Mae diogelu anghenion dysgu yn y trydydd sector yn adlewyrchu anghenion ei bartneriaid statudol.

Mae'r sector gwirfoddol yn cynnwys:

- elusennau cofrestredig
- sefydliadau gwirfoddol a chymunedol
- mentrau cymdeithasol.

Mae’n ymwneud â gwahanol fathau o waith a arweinir gan asiantaethau statudol, ac yn aml yn llenwi’r bylchau rhyngddynt.

Mae miloedd o ymarferwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr yn rhedeg sefydliadau gyda gwasanaethau sy'n cyfoethogi ac yn ategu ei gilydd a'u partneriaid statudol.

Mae angen offer a hyfforddiant, dysgu a datblygiad arnynt hefyd i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Mae ymddiriedolwyr elusen yn atebol i’r Comisiwn Elusennau, sy’n dweud eu bod yn gyfrifol am ddiogelu yn eu sefydliadau.

Maent yn gyfrifol am sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth llywodraethu, a bod y Bwrdd yn goruchwylio unrhyw ddyletswyddau diogelu a gyflawnir gan y sefydliad.

Efallai y bydd rhaid i ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau diogelu cymhleth yn eu sefydliad, ac ar ran unigolion.

Mae angen offer a hyfforddiant arnynt hefyd i wneud eu rolau'n effeithiol.

## Blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae

Dangos

Dylai’r holl ymarferwyr, staff a gwirfoddolwyr sy’n gweithio ym meysydd y blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae ddeall diogelu, a gallu rhoi polisi’r lleoliad ar waith yn unol â *Gweithdrefnau Diogelu Cymru*.

Amlinellir y gofyniad i gwblhau hyfforddiant diogelu yn y *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir* i blant hyd at 12 oed.

## Sefydliadau eraill

Dangos

Ni fydd pob sefydliad yn ffitio i'r categorïau eraill.

Mae'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu a’r fframwaith hefyd yn addas ar gyfer:

- sectorau preifat neu annibynnol
- gwirfoddolwyr
- aelodau etholedig awdurdodau lleol.

Bydd angen i sefydliadau wneud dadansoddiad o anghenion hyfforddi i ddeall rolau eu gweithwyr.

# Cymwysterau i gefnogi hyfforddiant, dysgu a datblygiad

Trosolwg o gymwysterau hyfforddiant, dysgu a datblygiad.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 20 Mawrth 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/cymwysterau-i-gefnogi-hyfforddiant-dysgu-a-datblygiad am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o gymwysterau hyfforddiant, dysgu a datblygiad.

Mae’r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a’r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru yn cael eu darparu gan ddarparwyr dysgu sydd wedi’u cymeradwyo gan gonsortiwm sy’n cynnwys City & Guilds a CBAC (y consortiwm).

Mae’r consortiwm yn rheoli ansawdd y cymwysterau ac yn cael ei oruchwylio gan y rheoleiddiwr cymwysterau, Cymwysterau Cymru.

Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys cynnwys diogelu sy'n adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau.

Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn yn unol â'r grwpiau ymarferwyr yn y *Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol*.

Mae prifysgolion a cholegau hefyd yn cynnal cymwysterau galwedigaethol.

Sicrheir eu hansawdd gan fframweithiau cymwysterau addysg uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU.

Mae gennym adnoddau diogelu, gan gynnwys:

- Modiwl e-ddysgu Grŵp A
- *P*ecyn hyfforddi diogelu sylfaenol Cymru Gyfan.

# Atebolrwydd

Esboniad o chyfrifoldebau gwahanol ymarferwyr a sefydliadau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/atebolrwydd am y fersiwn diweddaraf.

Esboniad o chyfrifoldebau gwahanol ymarferwyr a sefydliadau.

Mae sefydliadau:

- yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymarferwyr yn gymwys i gyflawni eu rolau diogelu bob amser
- o bosib a’u fframweithiau neu strategaethau hyfforddi, dysgu a datblygu eu hunain i ymarferwyr eu dilyn
- yn gyfrifol am fesur ansawdd y cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu a ddarperir a gwneud newidiadau os oes angen.

Mae ymarferwyr:

- yn gyfrifol am gofnodi eu dysgu a'u datblygiad eu hunain
- angen rhannu tystiolaeth o'u dysgu a'u datblygiad gyda'u cyflogwr, rheolwr a chorff proffesiynol pan fo angen
- sydd wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol angen bodloni'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a nodir ar eu cyfer.

Byddant hefyd yn gweithio i unrhyw God Ymarfer ac Ymddygiad Proffesiynol.

# Pam mae diogelu yn bwysig

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/pam-mae-diogelu-yn-bwysig am y fersiwn diweddaraf.

Mae diogelu pobl yn fusnes i bawb.

Pan ganfyddir cam-drin neu esgeulustod, dylid ymdrin ag ef yn gyflym, yn effeithiol ac mewn ffyrdd sy’n gymesur â’r pryderon a godwyd.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn egluro’n glir bod yn rhaid i’r plentyn, y person ifanc neu’r oedolyn fod yn ganolog i unrhyw ymateb diogelu.

Dylent fod, ac aros, mewn cymaint o reolaeth â phosibl dros wneud penderfyniadau.

Mae hawl sylfaenol plentyn, person ifanc neu oedolyn i gael eu clywed drwy gydol y broses ddiogelu yn elfen hollbwysig.

Dim ond staff sy’n cydnabod eu rolau a’u cyfrifoldebau diogelu sy’n gallu cynnig y cymorth personol sydd ei angen i wneud yn siŵr bod llais y plentyn, y person ifanc neu’r oedolyn yn cael ei glywed.

Mae’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi ymrwymo i:

- ddatblygu rhaglenni hyfforddi aml-asiantaeth o ansawdd uchel
- gefnogi gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr mewn sefydliadau statudol, preifat a thrydydd sector i ddiogelu a hyrwyddo llesiant pobl (gan gynnwys atal ac amddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed arall).

# Grŵp A

Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol: grŵp A

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/grwp-a am y fersiwn diweddaraf.

[Gweler disgrifiad o'r grŵp hwn yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.]

## Trosolwg

Mae ymarferwyr Grŵp A **i gyd** yn staff sy’n gweithio neu’n gwirfoddoli mewn sefydliad neu asiantaeth sector cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- y rhai mewn lleoliadau sector preifat
- gwirfoddolwyr
- aelodau etholedig awdurdodau lleol.

Y cymhwysedd ar gyfer y grŵp hwn yw i bob ymarferwr a gwirfoddolwr:

- feddu ar ddealltwriaeth am ddiogelu
- wybod beth sydd angen iddyn nhw, ac eraill, ei wneud
- wybod eu cyfrifoldeb i rannu pryderon am niwed, cam-drin neu esgeulustod gwirioneddol neu bosibl.

Dylid cwblhau hyfforddiant Grŵp A cyn hyfforddiant ar gyfer y grwpiau eraill, oni bai bod cynnwys llawn hyfforddiant grŵp A wedi’i gynnwys yn yr hyfforddiant a ddarperir mewn ffyrdd eraill.

**Egwyddorion cofiadwy**

- Rydw i’n gwybod beth mae'r term diogelu yn ei olygu.
- Rydw i’n gwybod beth i gadw llygad amdano.
- Rydw i’n gwybod pwy i’w hysbysu.

**Yn ôl y safonau, dylai pobl yng ngrŵp A wybod**:

- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- am y ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- sut i hysbysu, ymateb a chofnodi pryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

## Canlyniadau dysgu

**Gellir cyflawni canlyniadau dysgu mewn un modiwl neu sesiwn**.

Ar ddiwedd gweithgaredd dysgu, fe fyddan nhw'n:

- gallu esbonio'r term 'diogelu'
- adnabod camdriniaeth, neu risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod bod ganddynt ddyletswydd i hysbysu am gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud os ydynt yn dyst i neu'n amau camdriniaeth, niwed neu esgeulustod neu os bydd rhywun yn dweud wrth yr ymarferydd eu bod yn cael eu cam-drin.

## Hyfforddiant, dysgu a datblygu

- Rhaid safoni deunyddiau hyfforddi Grŵp A.
- Gellir darparu cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu wyneb yn wyneb fel bod pob ymarferwr yn cael hyfforddiant diogelu. (Mae gan rai meysydd gwaith

fynediad cyfyngedig neu ddim mynediad i hyfforddiant ar-lein.)

Nid yw e-ddysgu yn rhoi llawer o gyfleoedd ar gyfer gwaith aml-asiantaeth neu drafodaeth.

Ond, oherwydd y dylai hyfforddiant grŵp A fod yn codi ymwybyddiaeth gyffredinol, mae'r modiwl e-ddysgu yn addas ar gyfer y grŵp hwn.

Mae'r modiwl e-ddysgu ar gael ar ein gwefan:

**Modiwl e-ddysgu diogelu Grŵp A – Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae’r modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl staff sy’n gweithio i:

- gofal cymdeithasol
- gofal iechyd
- adrannau awdurdodau lleol
- addysg
- blynyddoedd cynnar a gofal plant
- y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys gwirfoddolwyr
- contractwyr annibynnol (gwasanaethau a gomisiynir)
- y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys gwirfoddolwyr
- sefydliadau cyfiawnder troseddol, fel yr heddlu a gwasanaethau prawf.

## Pethau i'w hystyried

Mae'r e-ddysgu wedi'i gynllunio i adlewyrchu'r wybodaeth a'r cymhwysedd y dylai fod gan ymarferwyr grŵp A. Mae'n cynnwys:

- senarios achos lle gall fod pryderon diogelu, a sut i ymateb

- cwestiynau neu asesiadau sylfaenol wedi'u hintegreiddio trwy gydol y modiwl i brofi faint y mae'r dysgwr wedi’i ddeall
- fideos, yn dangos straeon ac enghreifftiau o ddiogelu
- cyfle i'r dysgwr roi adborth am y modiwl.

## Faint o hyfforddiant, dysgu a datblygu?

- Mae angen i ymarferwyr grŵp A newydd gwblhau'r modiwl e-ddysgu cyn dechrau eu rôl, neu fel rhan o'u cyfnod sefydlu.
- Mae’r modiwl e-ddysgu bob amser ar gael, a gallant ei ddefnyddio’n hyblyg fel eu bod yn hyderus yn eu rôl a’u cyfrifoldebau.
- Os byddant yn aros yng ngrŵp A, bydd angen iddynt loywi eu dysgu:
    - **o leiaf** un i dair awr bob tair blynedd
    - pan fydd newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion diogelu
    - yn amlach os oes angen gan eu rheolwr neu asiantaeth.
- Bydd e-ddysgu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) yn ddwy awr ar y mwyaf.

# Grŵp B

## Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol: grŵp B

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/grwp-b am y fersiwn diweddaraf.

[**Gweler disgrifiad o'r grŵp hwn yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.**]

## Trosolwg

Mae ymarferwyr Grŵp B yn gweithio gyda phobl mewn lleoliad grŵp neu ar sail un-i-un.

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys ymarferwyr sydd neu nad ydynt wedi'u cofrestru neu eu rheoleiddio, a gwirfoddolwyr.

Bydd ganddynt gyfrifoldeb arbennig i'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

Bydd angen lefel uwch o wybodaeth arnynt na phobl yng ngrŵp A oherwydd pa mor agos y maent yn gweithio gyda phobl.

Efallai y bydd gan y bobl y maent yn gweithio gyda nhw bryderon diogelu neu beidio.

Os oes pryderon diogelu, bydd llinell hysbysu glir yn y sefydliad.

Byddant yn ymwybodol o’u cyfrifoldeb i hysbysu am bryderon, yn fewnol ac yn uniongyrchol i’r gwasanaethau cymdeithasol.

**Egwyddorion cofiadwy**

- Rydw i’n rhan allweddol o'r broses ddiogelu.
- Rydw i’n gwybod pryd, sut ac i bwy i hysbysu.
- Byddaf yn sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed.

**Yn ôl y safonau, dylai pobl yng ngrŵp B wybod**:

- am ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ynghylch diogelu
- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- am y ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- sut i hysbysu, ymateb a chofnodi pryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

## Canlyniadau dysgu

Byddant eisoes wedi cwblhau dysgu grŵp B.

Ar ddiwedd gweithgaredd dysgu, fe fyddan nhw'n:

- gwybod y ddeddfwriaeth a'r polisïau perthnasol, codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n adlewyrchu eu rôl mewn perthynas â diogelu
- gallu disgrifio sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- gwybod sut i fod yn chwilfrydig pan fyddant yn dyst neu'n amau camdriniaeth, niwed neu esgeulustod, neu os bydd rhywun yn dweud eu bod yn cael eu cam-drin
- gallu esbonio ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod sut, pryd ac i bwy i hysbysu am wahanol fathau o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed.

## Pethau i'w hystyried

Rydym yn argymell yn gryf ddysgu cyfunol ar gyfer grŵp B.

Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar-lein sylfaenol, ystafell ddosbarth rithwir ac addysgu a dysgu wyneb yn wyneb.

Dylai'r adnoddau a'r dulliau dysgu adlewyrchu gwybodaeth a chymhwysedd ar gyfer rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr yn y grŵp hwn. Maent yn cynnwys:

- llyfrau gwaith cyn ac ar ôl y cwrs, gwybodaeth ysgrifenedig, fideos, podlediadau a deunyddiau eraill (i gyd o ffynhonnell ddibynadwy)
- goruchwyliaeth un-i-un, mentora a chefnogaeth rheoli ar gyfer trafodaeth a myfyrio ar arfer
- cysgodi, cyfarfodydd tîm a grwpiau cefnogaeth cymheiriaid
- ymarferion hyfforddi gan gynnwys astudiaethau achos ac adolygiadau ymarfer
- mae gan *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol* lyfr gwaith diogelu i helpu ymarferwyr i ddeall eu rôl a’u cyfrifoldeb dros ddiogelu pobl, ac mae’n annog ymarfer myfyriol a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd
- adnoddau i ymarferwyr gofnodi dysgu a datblygiad.

**Pethau eraill i'w hystyried**

- Mynediad at offer TG, a ffyrdd o hyfforddi pobl na allant gael mynediad at hyfforddiant ar-lein.
- Rhoi ardystiad neu achrediad hyfforddiant ar gwblhau (neu gydnabyddiaeth arall), fel y gall ymarferwyr drosglwyddo hyfforddiant a dysgu wrth newid rolau.
- Adolygiad goruchwyliwr neu fentor, a chadarnhad o wybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysedd yr ymarferydd.

## Faint o hyfforddiant, dysgu a datblygu?

- **O leiaf** chwe awr o hyfforddiant i gwmpasu'r canlyniadau dysgu.
- Dylai gweithwyr newydd heb unrhyw hyfforddiant diogelu blaenorol gael hyfforddiant yn ystod pythefnos neu bedair wythnos gyntaf eu cyflogaeth neu wirfoddoli, neu o leiaf o fewn cyfnod prawf rôl newydd (chwe mis).
- Efallai y bydd hyfforddiant ychwanegol hefyd ar bynciau penodol i'r rôl.
- Dylai hyfforddiant, dysgu a datblygiad gloywi fod yn:
    - lleiafswm o chwe awr
    - yn barhaus dros gyfnod o dair blynedd
    - wedi'i wneud os oes newid i ddeddfwriaeth diogelu
    - wedi'i wneud fel sy'n ofynnol gan gyflogwr neu asiantaeth
- ar bynciau penodol i'r rôl.
- Dylai hyfforddiant, dysgu a datblygiad ganolbwyntio ar fyfyrio a datblygu gwybodaeth a sgiliau diogelu sy'n gysylltiedig â'r rôl.

# Grŵp C

Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol: grŵp C

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/grwp-c am y fersiwn diweddaraf.

## Gweler disgrifiad o'r grŵp hwn yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.

## Trosolwg

Mae gan ymarferwyr Grŵp C gyfrifoldeb uniongyrchol am ddiogelu pobl:

- sydd â rôl asesu sy'n gysylltiedig â'r broses ddiogelu
- sy'n gweithredu ar lefel lle gallant roi cyngor ar ddiogelu i'r rhai yng ngrwpiau A a B
- mewn lleoliad y maent yn gweithio ynddo neu'n ei reoli
- y maent yn treulio llawer o amser gyda nhw heb oruchwyliaeth mewn lleoliad lle mae risg uwch o bryderon diogelu.

Yn ogystal, gall ymarferwyr Grŵp C:

- fod yn berson diogelu dynodedig sefydliad
- gymryd rhan fwy blaenllaw mewn penderfyniadau diogelu
- chwarae rhan weithredol mewn grwpiau craidd a gweithgareddau cynllunio amddiffyn.

Dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd i ddyrchafu rhai staff i grŵp D os ydynt o’r farn bod eu rôl yn gwarantu hyfforddiant mwy dwys. Gweler: *Safeguarding Children Intercollegiate Document (2019)* (Saesneg yn unig).

**Mae dyletswyddau diogelu yn fwy ar gyfer ymarferwyr grŵp C**.

Bydd yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau ynghylch cadw pobl yn ddiogel, a phryd y mae angen iddynt roi prosesau amddiffyn ar waith.

Bydd angen i’r ymarferwyr hyn feddu ar yr holl wybodaeth a dealltwriaeth o’r safonau yng ngrwpiau A a B **ynghyd â** gwybodaeth ychwanegol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rôl yn unol â’r gyfraith.

Mae hyfforddiant diogelu grŵp C generig y mae’n rhaid i bawb yng ngrŵp C ei wneud.

Pan fydd gan ymarferwyr rolau neu gyfrifoldebau diogelu ychwanegol, bydd angen iddynt wneud hyfforddiant perthnasol penodol ar ôl iddynt gwblhau’r hyfforddiant grŵp C generig.

Bydd hyn yn wahanol i ymarferwyr unigol hyd yn oed o fewn asiantaethau a sefydliadau.

Er enghraifft: ym maes iechyd, bydd angen hyfforddiant arbenigol ar rai pediatregwyr grŵp C ar gynnal profion meddygol amddiffyn plant ac hysbysu amdanynt.

Bydd yr hyfforddiant arbenigol hwn yn aml yn cael ei ddiffinio ac yn ofynnol gan gyrff proffesiynol neu reoleiddiol ar lefel genedlaethol neu lefel asiantaeth.

Efallai y bydd cytundebau lleol hefyd ar gyfer gofynion hyfforddi penodol.

Efallai y bydd gan rai ymarferwyr grŵp C gyfrifoldebau sy’n rhan o safonau grŵp D.

Os yw hyn yn wir, dylai’r ymarferydd hyfforddi i fodloni safonau grŵp D fel ei fod yn barod ar gyfer ei rôl.

Mae angen i ymarferwyr o grŵp C ymlaen fod yn ymwybodol na all y fframwaith hwn gwmpasu pob rôl neu swydd.

Yr ymarferydd sy’n gyfrifol am asesu eu hanghenion dysgu eu hunain.

Mae angen i sefydliadau nodi gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), sy'n berthnasol i'w sector.

**Egwyddorion cofiadwy**

- Rydw i’n deall bod llais a rheolaeth pobl yn allweddol i wneud penderfyniadau – ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a/neu'r person.
- Rydw i’n deall rolau a chyfrifoldebau pawb yn y broses ddiogelu.
- Rydw i’n dangos y gallu i wneud penderfyniadau clir a chymesur.

## Yn ôl y safonau, dylai pobl yng ngrŵp C wybod:

- am ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol mewn perthynas â diogelu
- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- am y ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- sut i hysbysu, ymateb a chofnodi pryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu
- sut i hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a/neu'r person
- sut i gymryd rhan mewn prosesau diogelu
- sut i gefnogi eraill i ddiogelu pobl (ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldeb goruchwylio)
- sut i weithio gydag eraill i ddiogelu pobl
- sut i gynnal atebolrwydd proffesiynol.

# Canlyniadau dysgu

Gellir ystyried yr holl ganlyniadau dysgu, ond bydd rhai cyrsiau yn canolbwyntio ar y meysydd dysgu pwysig ac yn fwy manwl.

Byddant eisoes wedi cwblhau dysgu grŵp A a B.

Ar ddiwedd gweithgaredd dysgu, fe fyddant yn:

- gallu cymhwyso deddfwriaeth, polisïau a chodau ymddygiad perthnasol i'w hymarfer o ddydd i ddydd a chynghori eraill ar y rhain
- gallu diogelu ac amddiffyn pobl ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd a chodi pryderon i'r lefel nesaf
- gallu myfyrio ar ffactorau, sefyllfaoedd a chamau gweithredu a all gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod a darparu sail resymegol dros weithredu ac ymateb yn briodol i bryderon
- gwybod sut, pryd ac i bwy i hysbysu am wahanol fathau o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed
- dilyn *Gweithdrefnau Diogelu Cymru* ac unrhyw broses gwneud penderfyniadau rhanbarthol, a chynghori cydweithwyr eraill ar y rhain pan fo angen
- dilyn protocol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer ‘datrys gwahaniaethau proffesiynol’
- tystiolaethu bod llais y plentyn neu oedolyn yn ganolog i benderfyniadau diogelu drwy gydol y broses ddiogelu
- gallu egluro rôl eiriolaeth
- deall eu rôl a'u cyfrifoldebau a chyfrannu at fforymau a phrosesau diogelu perthnasol
- deall yr hyn a olygir gan ‘chwilfrydedd proffesiynol’ ac atebolrwydd proffesiynol
- deall egwyddorion goruchwyliaeth effeithiol a chefnogaeth cymheiriaid
- gwybod sut i gynghori a chefnogi eraill i ddiogelu pobl

- deall sut i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd aml-asiantaeth, a bod yn glir ynghylch rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill
- gallu cymryd cyfrifoldeb personol am ymarfer a datblygiad a datblygiad proffesiynol parhaus.

## Hyfforddiant, dysgu a datblygu

Bydd ymarferwyr Grŵp C yn parhau â’u taith ddysgu diogelu wrth weithio mewn rôl grŵp C.

Bydd eu dysgu a’u datblygiad yn cynnwys, ac yn adeiladu ar, yr hyfforddiant a’r dysgu sydd eu hangen ar gyfer grwpiau A a B.

Nid oes angen gwneud hyfforddiant gloywi yn grŵp A a grŵp B yn ogystal â hyfforddiant grŵp C.

Bydd y grŵp hwn yn defnyddio llawer o wahanol fathau o ddeunyddiau dysgu a datblygu.

Dylai dysgu a datblygu gynnwys cyfleoedd dysgu a hyfforddi aml-asiantaeth lle bo'n briodol.

I fyfyrio ar eu dysgu, eu datblygiad a’u hymarfer, bydd ymarferwyr grŵp C yn defnyddio:

- wyneb-yn-wyneb
- dulliau astudiaeth achos cymhleth
- arfer myfyriol a
- Cyfnodolion neu logiau DPP.

Dylai ymarferwyr ddefnyddio logiau DPPCPD ffurfiol neu lyfrynnau cymhwysedd i gadw cofnod a dangos tystiolaeth o’u hyfforddiant a’u datblygiad.

Dylai hyfforddiant a datblygiad gynnwys ymarfer myfyriol a chyfleoedd eraill y tu allan i ddulliau hyfforddi arferol. Er enghraifft:

- mynd i gyfarfodydd strategol
- dysgu o arfer uniongyrchol.

Mae ymarferwyr Grŵp C yn gyfrifol am eu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain, a all fod yn hunangyfeiriedig.

Gallant ddefnyddio logiau DPP neu lyfrynnau cymhwysedd i brofi bod eu dysgu a’u datblygiad yn bodloni gofynion cyrff rheoleiddio.

Gall ymarferwyr Grŵp C ddefnyddio:

- goruchwyliaeth
- cefnogaeth gan gymheiriaid
- myfyrio
- setiau dysgu gweithredol
- cyfarfodydd tîm

i:

- fyfyrio ar ddysgu

- gymhwyso dysgu i'w gwaith o ddydd i ddydd
- rannu syniadau ac arfer da ar ôl gweithgaredd dysgu
- helpu i ganfod pa gefnogaeth neu ddatblygiad pellach sydd ei angen.

## Pethau i'w hystyried

Dylai gwahanol ddulliau hyfforddi, dysgu a datblygu fod ar gael, i gefnogi gwahanol arddulliau dysgu.

Rydym yn argymell yn gryf ffordd gymysg o ddysgu. Gallai hyn gynnwys:

- hyfforddiant ar-lein sylfaenol
- ystafell ddosbarth rithwir
- addysgu a dysgu wyneb yn wyneb
- dysgu hunangyfeiriedig a myfyrio.

Bydd dysgu a datblygu yn cynnwys:

- gweithdai wedi'u harwain gan senarios
- cynadleddau aml-asiantaeth gyda chwestiynau ac atebion,
- chwarae rôl i efelychu adolygiadau neu gyfarfodydd diogelu.

Dylai'r dysgu, lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol, gael ei wneud gydag ymagwedd aml-asiantaeth.

Mae angen gwneud dysgu arbenigol ac asiantaeth sengl yn ogystal â dysgu cyffredinol ac aml-asiantaeth.

## Faint o hyfforddiant, dysgu a datblygu?

Mae’n rhaid i’r rheolwr a’r ymarferydd gytuno ar ofyniad sylfaenol cyn-hyfforddi sydd ei angen ar yr ymarferydd cyn iddo ddechrau rôl newydd.

Rhaid i ymarferwyr Grŵp C:

- wneud lleiafswm o wyth awr o hyfforddiant o fewn cyfnod prawf rôl newydd, ynghyd â hyfforddiant ar bynciau diogelu sy’n benodol i’r rôl, gan gynnwys:
  - amser dosbarth rhithwir

    - darllen cyn y cwrs
    - camau dilynol gyda rheolwr neu oruchwyliwr
    - atgyfnerthu ar ôl y cwrs, lle mae dysgwyr yn rhoi'r dysgu ar waith.
- cael hyfforddiant gloywi ar yr hyfforddiant generig (o leiaf wyth awr bob tair blynedd)
- gwneud o leiaf 18 awr (chwe awr y flwyddyn) o hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys hyfforddiant manwl ar bynciau diogelu penodol neu brosesau mewnol
- gwneud hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i rolau a dyletswyddau penodol, a ddylai:
    - adlewyrchu unrhyw newidiadau i arferion a chymhwysiad
    - gynnwys hyfforddiant y mae angen ei wneud yn gynt na thair blynedd (er enghraifft: dulliau diagnostig newydd mewn meysydd gofal iechyd).

# Grŵp D

## Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol: grŵp D

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/grwp-d am y fersiwn diweddaraf.

[Gweler disgrifiad o'r grŵp hwn yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.]

## Trosolwg

Ymarferwyr Grŵp D yw’r rhai sy’n gweithredu ar lefel uwch yn y broses ddiogelu.

Mae’n rôl strategol fel arfer, ond efallai y caiff rhai cyfrifoldebau eu dirprwyo i ymarferwyr arbenigol Grŵp C.

Maent yn rhoi cyngor, arweiniad a goruchwyliaeth (pan fo angen) i eraill yn eu sefydliad.

Efallai y bydd gan rai ymarferwyr grŵp D gyfrifoldebau sy’n rhan o safonau grŵp E.

Os yw hyn yn wir, mae angen i ymarferwyr hyfforddi i safonau grŵp E fel y gallant baratoi ar gyfer eu rôl.

Bydd ymarferwyr Grŵp D yn:

- meddu ar lefel uchel o wybodaeth ac arbenigedd ym maes diogelu yn eu maes gwaith
- cyfrannu at [Adolygiad Diogelu Unedig Sengl] a chadeirio adolygiadau pan fo angen
- gweithredu fel adolygydd neu aelod o banel ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl
- gallu rhoi cyngor diogelu i asiantaethau partner a deall pwysigrwydd gweithio aml-asiantaeth

- gallu cyfiawnhau eu penderfyniadau gan ddefnyddio deddfwriaeth, prosesau a gweithdrefnau, gan wneud yn siŵr bod pawb yn osgoi gwneud rhagdybiaethau
- ymwybodol o bwysigrwydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn/person a'r effaith gadarnhaol y gall ei chael ar y broses ddiogelu
- sicrhau bod llais y person yn cael ei glywed a'i hybu mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Bydd asiantaethau statudol fel arfer yn nodi ymarferwyr grŵp D gan fod ganddynt bwerau gwneud penderfyniadau lefel uwch ar gyfer diogelu.

Mae rhai o'r rolau yn cynnwys:

- rheolwyr llinell gweithredol (rheolwyr gwasanaeth)
- rolau diogelu arbenigol
- rolau cadeirydd ar gyfer gwaith diogelu. (Er enghraifft: ar adolygiadau.)

Dylid rhoi pwyslais ar waith aml-asiantaeth a gweithio gydag eraill, gan nad oes rôl gyfatebol mewn llawer o asiantaethau.

Mae'r rôl yn cynnwys:

- deall yr hyn sydd ei angen o ymateb strategol, aml-asiantaeth
- gallu cydweithio ag asiantaethau eraill, a'u cynghori ynghylch prosesau ac arferion diogelu, amddiffyn plant ac oedolion
- nodi a chyfrannu at brosesau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a Chynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC), a'r ystod o gyfranogiad arbenigol amlasiantaethol
- gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i nodi a lledaenu dysgu a chodi ymwybyddiaeth o arfer gorau, priodol
- helpu i ddatblygu a hyrwyddo cymunedau ymarfer diogelu aml-asiantaeth

- cefnogi, hyrwyddo ac eiriol dros hyfforddiant priodol, safonau hyfforddi, dulliau darparu hyfforddiant, mewn gweithluoedd aml-asiantaeth yn y maes y maent yn gweithio ynddo
- gweithio gyda'r byrddau diogelu a chefnogi nodau diogelu rhanbarthol, aml-asiantaeth
- bod yn rhan o drefniadau llywodraethu rhanbarthol aml-asiantaeth, sicrhau ansawdd, monitro perfformiad a chydymffurfio.

**Egwyddorion cofiadwy**

- Byddaf yn arwain agenda diogelu’r sefydliad.

- Byddaf yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ar bob cam o’r broses.
- Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth a'm harbenigedd i wella arferion diogelu.

**Yn ôl y safonau, mae angen i bobl yng ngrŵp D**:

- wybod sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- hyrwyddo arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r person
- gymryd rhan mewn prosesau diogelu
- gefnogi eraill i ddiogelu pobl
- weithio gydag eraill i ddiogelu pobl
- gynnal atebolrwydd proffesiynol.

# Canlyniadau dysgu

**Byddant eisoes wedi cwblhau dysgu grŵp A, B ac C.**

Ar ddiwedd cyfnod o ddysgu a datblygu sy’n benodol i’w rôl diogelu, rhaid iddynt allu:

- myfyrio ar sefyllfaoedd diogelu unigol a dod o hyd i gamau gweithredu a dysgu i'w rhannu ag eraill, megis:
    - dysgu o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion (Adolygiadau Diogelu Sengl Unedig)
    - gwersi ac argymhellion wedi'u hymgorffori i wella arfer.
- tystiolaethu bod llais y plentyn a/neu’r oedolyn yn cael ei glywed a’i ystyried drwy gydol y broses ddiogelu
- cymryd rôl cadeirio neu rôl cydlynydd arweiniol
- cynghori eraill am brosesau diogelu
- defnyddio sesiynau goruchwylio neu sesiynau un-i-un i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, myfyrio a chwilfrydedd proffesiynol gweithwyr, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau
- gweithio mewn partneriaeth ac arwain cyfarfodydd aml-asiantaeth
- cynghori cydweithwyr am ganllawiau, polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu pobl
- dwysáu materion i gael datrysiadau
- cynrychioli'r asiantaeth ar lefelau uwch, a gweithio gyda phartneriaid neu randdeiliaid allweddol
- arwain arfer i gefnogi egwyddorion a gwerthoedd chwilfrydedd proffesiynol
- lledaenu dysgu o adolygiadau
- defnyddio gwahanol ddulliau i weithredu ar argymhellion.

## Hyfforddiant, dysgu a datblygu

Bydd angen i staff Grŵp D sy'n newydd i'w rôl ddangos hyfforddiant a dysgu blaenorol.

Mae angen iddynt fod wedi cwblhau hyfforddiant grŵp C eisoes.

Bydd angen iddynt hefyd ddangos bod ganddynt ddealltwriaeth effeithiol a thrylwyr o ddiogelu pan fyddant yn dechrau yn eu swydd.

Mae'n rhaid i hyfforddiant ar y lefel hon gael ei anelu at gynulleidfa aml-asiantaeth, gyda hwyluso aml-asiantaeth.

Pwrpas hyfforddiant aml-asiantaeth a hyfforddwyr ar y lefel hon yw darparu cyfleoedd i gyfoedion ddysgu gyda'i gilydd.

Dylent allu trafod, myfyrio a dadansoddi astudiaethau achos, adolygiadau neu ddysgu o adolygiadau diogelu.

Dylid defnyddio gwahanol fathau o hyfforddiant ar gyfer grŵp D.

I gynnwys mwy o bobl, efallai y bydd angen i hyfforddiant weddu i wahanol arddulliau dysgu.

Gall y dull hyfforddi hefyd ddibynnu ar gyswllt uniongyrchol.

Rydym yn argymell ffordd gyfunol o ddysgu, a ddylai gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- gweithdai senario
- hyfforddiant a dysgu wyneb yn wyneb
- adolygiadau neu gyfarfodydd diogelu chwarae rôl
- esbonio termau
- defnyddio deddfwriaeth a'i chymhwyso
- dysgu hunangyfeiriedig
- adolygiad gan gymheiriaid gydag ymagwedd aml-asiantaeth
- sesiynau wedi'u hwyluso i annog rhyngweithio

- dysgu myfyriol.

Dylai ymarferwyr Grŵp D gadw cofnodion DPP ffurfiol i gadw golwg ar gyfleoedd dysgu y tu allan i hyfforddiant (er enghraifft: mynychu cyfarfodydd strategol).

Gallai hyfforddiant grŵp D gynnwys gwahanol ffyrdd o ddysgu, a disgwylir i ymarferwyr fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain a dod o hyd i unrhyw fylchau yn eu hyfforddiant, gwybodaeth neu ddealltwriaeth.

Bydd cyfleoedd dysgu a datblygu y tu allan i gyrsiau hyfforddi penodol.

Mae’n ymwneud ag arddangos cymwyseddau a defnyddio gwahanol ffyrdd o ddysgu i ennill gwybodaeth a sgiliau.

## Pethau i'w hystyried

Dylai dysgu:

- gynnwys sesiynau gwybodaeth byrrach wedi'u targedu
- gynnwys myfyrio
- gynnwys ymarfer dadansoddol
- ganolbwyntio ar ymchwil
- fod yn seiliedig ar ganlyniadau.

Dylai hyfforddiant ar lefel grŵp D ganolbwyntio ar ffyrdd adfyfyriol o ddysgu a chaiff ei wneud yn aml mewn sesiynau wedi'u hwyluso i annog rhyngweithio, myfyrio a dysgu.

Dylai ymarferwyr Grŵp D gadw cofnodion DPP ffurfiol i gadw golwg ar gyfleoedd dysgu eraill y tu allan i hyfforddiant (er enghraifft: mynd i gyfarfodydd strategol).

## Faint o hyfforddiant, dysgu a datblygu?

- Mae angen i ddatblygiad proffesiynol fod wedi dechrau fel rhan o'r cyfnod sefydlu, neu cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau yn y swydd. Bydd datblygiad proffesiynol, a gwella, dysgu ac ennill mwy o ddealltwriaeth, sgiliau a chymhwysedd, yn ofyniad parhaus.
- O leiaf wyth awr o hyfforddiant o fewn cyfnod prawf rôl newydd, ynghyd â hyfforddiant ar bynciau diogelu sy'n benodol i'r rôl. Mae hyn yn cynnwys:
    - amser dosbarth rhithwir
    - darllen cyn y cwrs
    - camau dilyniant gyda'r rheolwr neu'r goruchwyliwr
    - atgyfnerthu ar ôl y cwrs, lle mae ymarferwyr yn rhoi dysgu ar waith.
- Bydd ymarferwyr yn cwblhau o leiaf 24 awr o hyfforddiant gloywi ym mhob cyfnod o dair blynedd.
- Mae angen i bob sefydliad ystyried y gofynion yn y fframwaith.

# Grŵp E

Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol: grŵp E

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/grwp-e am y fersiwn diweddaraf.

[Gweler disgrifiad o'r grŵp hwn yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.]

## Trosolwg

Rolau Grŵp E sydd â’r gair olaf am benderfyniadau diogelu yn ystod y broses ddiogelu.

Gallant roi cyngor ar sefyllfaoedd lefel uchel, cymhleth. Maent yn ‘gwneud penderfyniad’ am unrhyw benderfyniadau diogelu y mae angen eu gwneud.

Ni ellir gwneud rhai penderfyniadau yn y broses ddiogelu o dan y lefel hon.

Mae’r rhain yn cynnwys y lefelau uwch o becynnau gofal a chefnogaeth (lleoliadau) sydd eu hangen weithiau oherwydd pryderon diogelu.

Efallai na fydd gan rai asiantaethau bobl sy’n gweithio ar y lefel hon oherwydd y lefel uchel o arbenigedd, gwybodaeth a phwerau gwneud penderfyniadau sydd eu hangen yn y broses ddiogelu.

Byddai'r bobl sy'n gweithio ar y lefel hon hefyd yn cynghori asiantaethau eraill ar eu maes arbenigedd. Byddent yn gallu arwain gwaith diogelu rhanbarthol neu genedlaethol yn eu maes arbenigedd.

Byddent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn grwpiau rhanbarthol neu genedlaethol sy’n edrych ar faterion diogelu, gan gynnwys mentrau cenedlaethol ac adolygiadau cymhleth.

Nid ymarferwyr Grŵp E o reidrwydd fyddai’r bobl ar y lefelau uchaf mewn sefydliadau, gan y gallai’r rhain fod yng ngrŵp F (a fyddai’n cynnwys aelodau

etholedig, aelodau bwrdd a phrif weithredwyr).

Efallai y bydd yn rhaid iddynt gynghori pobl yng ngrŵp F.

Mae gan bobl yng ngrŵp F bwerau gwneud penderfyniadau uwch yn gyffredinol ond ni fyddent yn cymryd rhan ym manylion y broses ddiogelu nac yn gwneud penderfyniadau am y broses.

**Egwyddorion cofiadwy**

- Mae gennyf oruchwyliaeth strategol ar yr holl faterion diogelu o fewn y sefydliad.
- Byddaf yn anelu at wneud yn siŵr bod gennym ddigon o adnoddau i gyflawni dyletswyddau diogelu'r sefydliad.
- Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth a'm dylanwad i wella arferion diogelu yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Yn ôl y safonau, mae angen i bobl yng ngrŵp E wybod:

- y cymwyseddau craidd (os ydynt yn arweinwyr sector neu â rolau arbenigol)
- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- sut i gefnogi eraill i ddiogelu pobl.

## Canlyniadau dysgu

Ar ddiwedd cyfnod o ddysgu a datblygu sy'n benodol i'w rôl diogelu, rhaid iddynt allu:

- arwain a gwneud penderfyniadau i sicrhau bod camau diogelu yn cael eu cymryd yn gadarn ac yn amserol, a bod prosesau ar waith ar draws y

sefydliad

- arwain neu oruchwylio diogelu ansawdd a gwelliant yn y sefydliad a monitro newidiadau arfer
- rhoi cyngor priodol i asiantaethau eraill ac i weithwyr proffesiynol diogelu arbenigol yn y sefydliad sy'n darparu gwasanaethau
- arwain arloesedd a newid i wneud diogelu yn well yn y sefydliad
- deall ac annog prosesau goruchwylio effeithiol, arfarnu, a chefnogaeth i ymarferwyr diogelu arbenigol
- deall disgwyliadau atebolrwydd sefydliadol a sicrwydd ansawdd ar gyfer diogelu
- meddu ar ddealltwriaeth fanwl o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau diogelu
- rhoi cyngor a thystiolaeth am benderfyniadau, prosesau a gweithdrefnau diogelu
  - deall systemau sy'n cefnogi:
  - gwerthuso
- cydymffurfiad datblygiad y gweithlu a hyfforddiant ar gyfer diogelu
- deall y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain, cydlynu a chydweithio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- cymhwyso newidiadau o ddeddfwriaeth a chanllawiau
- rhannu gwybodaeth a dysgu o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion (Adolygiadau Diogelu Unedig) a gweithredu ar argymhellion.

## Hyfforddiant, dysgu a datblygu

- Rydym yn argymell yn gryf ffordd gyfunol o ddysgu. Bydd hyn yn cynnwys:
  - hyfforddiant ar-lein sylfaenol
  - ystafelloedd dosbarth rhithwir
  - addysgu a dysgu wyneb yn wyneb.

- Dylid dysgu, lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol, ag ymagwedd aml-asiantaeth.
- Rhaid cael dysgu arbenigol ac asiantaeth sengl, a rhaid i hyn fod yn ychwanegol at ddysgu cyffredinol ac aml-asiantaeth.
- Bydd cyfleoedd dysgu i ymarferwyr yn:
  - canolbwyntio ar ymchwil
  - seiliedig ar ganlyniadau
  - cynnwys sesiynau gwybodaeth byr wedi'u targedu
  - cynnwys dadansoddi astudiaethau achos cymhleth
  - defnyddio deunydd fideo ac ymarfer myfyriol.

## Pethau i'w hystyried

Dylai dysgu gynnwys:

- sesiynau gwybodaeth byrrach, wedi'u targedu
- myfyrio
- arfer dadansoddol sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Dylai hyfforddiant Grŵp E fod yn adfyfyriol ac fe'i cynhelir yn aml mewn sesiynau wedi'u hwyluso i annog rhyngweithio, myfyrio a dysgu.

Dylai ymarferwyr Grŵp E gadw cofnodion DPP ffurfiol o gyfleoedd dysgu y tu allan i hyfforddiant. (Er enghraifft: mynd i gyfarfodydd strategol.)

## Faint o hyfforddiant, dysgu a datblygu?

- Mae ymarferwyr sydd newydd eu penodi yng ngrŵp E yn cwblhau isafswm o oriau o hyfforddiant, dysgu a datblygiad diogelu yn eu chwe mis cyntaf. Gellir

cytuno ar yr hyfforddiant hwn rhwng yr ymarferydd a'i reolwr llinell.

- Bydd ymarferwyr yn cwblhau o leiaf 24 awr o hyfforddiant gloywi ym mhob cyfnod o dair blynedd.
- Dylai ymarferwyr gadw cofnod DPP ffurfiol o gyfleoedd dysgu y tu allan i hyfforddiant rhithwir neu yn yr ystafell ddosbarth. (Er enghraifft: mynd i gyfarfodydd strategol.)

# Grŵp F

Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol: grŵp F

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/grwp-f am y fersiwn diweddaraf.

## Gweler disgrifiad o'r grŵp hwn yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.

## Trosolwg

Ymarferwyr Grŵp F yw'r bobl uchaf mewn sefydliad.

Maen nhw’n gyfrifol am sicrhau bod diogelu yn gyson ar draws asiantaethau neu ranbarthau gwahanol yng Nghymru a’r DU.

Mae ymarferwyr Grŵp F yn cynnwys:

- aelodau etholedig ar gyfer awdurdodau lleol
- cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol y bwrdd
- aelodau o bob sefydliad partner
- prif swyddogion gweithredol
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Prif Gwnstabliaid a Phrif Gwnstabliaid Cynorthwyol.

Un person mewn sefydliad sector cyhoeddus fydd yn gyfrifol yn y pen draw am ddiogelu.

Bydd hyn fel arfer yn ymwneud â diogelu corfforaethol, ac nid yw hyn yr un peth â bod y penderfynwr uchaf yn y broses ddiogelu.

Dylai fod gan bob ymarferydd Grŵp F fynediad at gyngor ac arbenigedd diogelu gan weithwyr proffesiynol dynodedig neu benodol.

Nid oes angen yr un wybodaeth fanwl am ddiogelu ar ymarferwyr Grŵp F ag ymarferwyr grŵp E oherwydd nid oes angen iddynt feddu ar yr un lefel o

arbenigedd a sgiliau.

Mae angen i ymarferwyr Grŵp F fod â'r un ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu â grŵp A.

Bydd angen iddynt hefyd wneud rhywfaint o hyfforddiant, megis hyfforddiant ymwybyddiaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).

**Egwyddorion cofiadwy**

- Rydw i'n darparu arweinyddiaeth sy'n amgylchynnu diogelu yn y sector cyhoeddus ac sy'n hyrwyddo gweithio aml-asiantaeth.
- Rydw i'n deall elfennau craidd diogelu a pham mae hwn yn faes pwysig.
- Byddaf yn cael arweiniad a sicrwydd gan ymarferwyr grŵp E ar feysydd sy'n peri pryder.

### Yn ôl y safonau, mae angen i bobl yng ngrŵp F wybod:

- y cymwyseddau craidd ar gyfer rolau arbenigol ac arweinwyr sector
- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- y ffactorau, sefyllfaoedd a chamau gweithredu a allai arwain at, neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- sut i hysbysu, ymateb i a chofnodi pryderon neu honiadau diogelu
- sut i gefnogi eraill i ddiogelu pobl.

## Canlyniadau dysgu

Byddant eisoes wedi cwblhau dysgu grŵp A.

Ar ddiwedd gweithgaredd dysgu, fe fyddant yn:

- gallu esbonio'r term 'diogelu'
- gallu adnabod camdriniaeth neu risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod bod ganddynt ddyletswydd i hysbysu am gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod beth i'w wneud os ydynt yn dyst neu'n amau camdriniaeth, niwed neu esgeulustod, neu os bydd rhywun yn dweud wrth yr ymarferydd eu bod yn cael eu cam-drin
- gallu hybu diwylliant yn y sefydliad:
  - sy'n diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion
  - lle mae diogelu ac amddiffyn yn digwydd ledled y sefydliad
  - lle mae adnoddau ar gael i gefnogi ac ymateb i ddiogelu
  - lle mae adnoddau ar gyfer strategaeth hyfforddi a goruchwylio diogelu.
- deall y rôl rhianta corfforaethol a chyfrifoldebau eu sefydliad
- deall achosion a chanlyniadau posibl esgeulustod difrifol
- deall y rhwymedigaethau statudol i weithio gyda'r bwrdd diogelu rhanbarthol ac asiantaethau diogelu eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol
- cefnogi'r bwrdd diogelu i gael cyngor arbenigol ar ddiogelu ac amddiffyn gan weithwyr proffesiynol dynodedig
- deall y risg ar lefel bwrdd ynghylch diogelu
- deall bod angen trefniadau i roi gwybod i bobl am ddigwyddiadau difrifol ac ymateb yn gyflym iddynt, gan gynnwys yr angen cyfreithiol i hysbysu am ddyletswyddau i'r heddlu.

## Hyfforddiant, dysgu a datblygu

Rydym yn argymell yn gryf ar y ffordd gyfun o ddysgu.

Bydd hyn yn cynnwys:

- hyfforddiant ar-lein sylfaenol
- ystafell ddosbarth rithwir
- addysgu a dysgu wyneb yn wyneb.

## Pethau i'w hystyried

Mae angen i ymarferwyr Grŵp F:

- gwblhau e-ddysgu grŵp A a hyfforddiant pwrpasol perthnasol (fel y gyfres arweinyddiaeth VAWDSV), dysgu a datblygu fel rhianta corfforaethol
- wneud hyfforddiant, dysgu a datblygu rôl-benodol ar gyfer grwpiau A i E yn ôl yr angen ar gyfer portffolio
- fynychu digwyddiadau hyfforddi a dysgu a datblygu cenedlaethol rhithwir i rwydweithio â chydweithwyr a chael gwybodaeth gyffredin am bynciau diogelu ac adolygiadau ymarfer
- ddefnyddio adroddiadau gan swyddogion a Byrddau Diogelu Rhanbarthol i gynnal ymwybyddiaeth o themâu cyfredol a themâu sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i ddiogelu
- ddatblygu perthnasoedd cryf ag arbenigwyr mewn meysydd diogelu arbenigol.

## Faint o hyfforddiant, dysgu a datblygu?

Mae angen i ymarferwyr grŵp F sydd newydd eu penodi gwblhau e-ddysgu grŵp A cyn dechrau gweithio, yn y cyfnod sefydlu neu yn ystod eu chwe mis cyntaf.

Mae angen i ymarferwyr Grŵp F gwblhau e-ddysgu grŵp A ac ailymweld â hyfforddiant, dysgu a datblygu gloywi pwrpasol perthnasol am o leiaf chwe awr bob tair blynedd.

# Atodiad 1: canllawiau ar gyfer penodi hyfforddwyr

Safonau a chyngor i gomisiynwyr, a phethau i'w hystyried.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/atodiad-1-canllawiau-ar-gyfer-penodi-hyfforddwyr am y fersiwn diweddaraf.

Safonau a chyngor i gomisiynwyr, a phethau i'w hystyried.

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer:

- unrhyw un sy'n comisiynu neu'n penodi hyfforddwyr cyflogedig i redeg hyfforddiant diogelu yng Nghymru i'r gweithlu ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg
- pobl sydd eisiau rhedeg hyfforddiant diogelu penodol neu generig
- pobl sy'n comisiynu hyfforddwyr mewnol
- pobl sy'n cynnal hyfforddiant diogelu fel rhan o rôl swydd ehangach.

Dylai eich helpu i benodi hyfforddwyr effeithiol a phriodol.

Dylech ei ddefnyddio yn ychwanegol at y safonau sefydliadol ar gyfer gweithdrefnau comisiynu.

## Pam ei bod yn bwysig cael yr hyfforddwr cywir

Mae diogelu yn bwnc arbennig a heriol iawn i'w gyflwyno.

Mae angen i hyfforddwyr fod yn sensitif, yn wybodus ac yn gredadwy.

Mae’n bwysig bod ymarferwyr yn cael yr hyfforddiant cywir, fel eu bod yn gymwys i wneud eu rôl diogelu.

## Dewis yr hyfforddiant cywir

Mae sefydliadau'n gyfrifol am ddewis yr hyfforddiant perthnasol ar gyfer eu staff.

Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu ar gael i'w staff.

Mae gan weithwyr gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu.

Ond efallai y bydd adegau pan:

- mae dysgwr yn mynychu cwrs neu ddigwyddiad nad yw'n cyd-fynd â'i rôl ddiogelu bresennol
- nid yw dysgwr wedi gwneud digon o ddysgu cyn cwrs neu ddigwyddiad i baratoi'n iawn.

Efallai y bydd hyfforddwyr ar y cyrsiau hyn am gael sgwrs gynnil gyda'r dysgwr am gyrsiau eraill, mwy priodol, a gwahodd y dysgwr i adael y cwrs neu ddigwyddiad.

## Safonau hyfforddwr

Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yr un ansawdd o hyfforddiant, mae'n bwysig bod hyfforddwyr yn cadw at yr un set o safonau.

### Safon 1

Mae angen i hyfforddwyr fod yn ymarferwyr sydd â phrofiad priodol neu'n hyfforddwr cymwys.

Dylai fod ganddynt wybodaeth ymarferol helaeth am ddiogelu o gefndir perthnasol (er enghraifft: gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol, addysg gwaith, ieuenctid neu'r heddlu).

## Safon 2

Mae'r holl hyfforddiant diogelu yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru.

Rhaid i hyfforddwyr ddangos eu bod yn gwybod am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol Rhan 7 (Diogelu).

## Safon 3

Mae angen i hyfforddiant gael nodau ac amcanion clir. Mae angen iddo hefyd fodloni canlyniadau dysgu cytûn, a chael effaith gadarnhaol ar arfer dysgwyr.

## Safon 4

Mae angen i hyfforddi a datblygu:

- fod wedi'i llywio gan ymchwil gyfredol
- fod yn seiliedig ar dystiolaeth
- gynnwys gwersi o adolygiadau ymarfer plant neu oedolion (Adolygiadau Diogelu Unedig), polisi lleol a chenedlaethol, a datblygiad ymarfer.

## Safon 5

Rhaid i ddeunyddiau hyfforddi fod yn glir, yn gywir, yn berthnasol ac yn gyfredol.

Rhaid iddynt fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## Safon 6

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei wneud gan hyfforddwyr sydd â phrofiad hyfforddi perthnasol, a all brofi eu sgiliau a'u cymwyseddau.

Dylai hyfforddwyr fod wedi cwblhau, neu fod yn gweithio tuag at, raglen ‘Hyfforddi’r Hyfforddwr’ neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol.

## Safon 7

Bydd hyfforddiant yn cael ei wneud mewn amgylchedd hygyrch sy’n briodol ar gyfer dysgu.

Dylai unrhyw un sy'n gorfod gwneud yr hyfforddiant gael y cyfle i fynychu.

## Safon 8

Dylai fod gan hyfforddiant ethos sy'n gwerthfawrogi gweithio ar y cyd ag eraill, ac sy'n parchu amrywiaeth.

Dylai hyfforddiant hefyd fodloni safonau ar gyfer y Gymraeg, hil, crefydd ac anabledd, a hyrwyddo cydraddoldeb.

## Safon 9

Bydd hyfforddiant yn cael ei werthuso i sicrhau bod safonau'n cael eu cadw, a'i fod yn gwella arfer yn y tymor hir a'r tymor byr.

## Safon 10

Dylai hyfforddiant roi’r plentyn neu’r oedolyn yn ganolog a hybu pwysigrwydd deall profiad bywyd beunyddiol y plentyn neu’r oedolyn.

### Safon 11

Dylai hyfforddiant annog trafodaeth iach a her briodol, a chefnogi dysgu gan gymheiriaid.

### Safon 12

Dylai hyfforddiant roi cyfle i ddysgwyr rannu pryderon, cael eu cefnogi gyda materion sensitif a chael eu cyfeirio at, neu ddweud wrthynt am, y gwasanaeth cywir.

Dylai hyfforddwyr esbonio a chadw'r lefel cyfrinachedd briodol.

## Yr hyn y mae angen i hyfforddwyr ei ystyried

Dylai’r hyfforddwr wybod am bolisïau diogelu’r sefydliad comisiynu a’i weithdrefnau hysbysu.

Dylai hyfforddwyr hefyd wybod y polisïau, y gweithdrefnau a’r protocolau ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn y rhanbarth y maent yn ei hyfforddi.

Efallai y bydd angen i'r hyfforddwr drosglwyddo pryderon a godwyd gan unrhyw un yn ystod yr hyfforddiant i rywun uwch.

## Profi eich bod yn cyrraedd y safonau

ylai’r comisiynydd hyfforddiant ystyried pa dystiolaeth y gellid ei chyflwyno i gefnogi pob un o’r safonau.

Efallai y bydd angen i hyfforddwyr ddarparu tystiolaeth cyn neu ar ôl hyfforddiant.

Er enghraifft, dylai Safonau 3, 4, 5, 8 a 9 ymddangos fel gofynion mewn proses dendro neu gomisiynu.

Gallai tystiolaeth neu gymwysterau’r hyfforddwr ateb Safonau 1, 2, 6, 10, 11 a 12.

Gallai tystiolaeth gynnwys:

- tystysgrifau hyfforddi
- CV
- tystebau
- gwerthusiadau cyrsiau blaenorol.

Byddai'n ddefnyddiol i hyfforddwyr:

- roi sampl o'u deunyddiau hyfforddi eu hunain
- ddisgrifio sut maent yn defnyddio adnoddau dysgu cydnabyddedig
- ddangos eu bod yn deall sut mae’r cyrsiau diogelu y maent yn eu cyflwyno yn berthnasol i’r darlun ehangach (er enghraifft: Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol).

Bydd comisiynwyr hyfforddiant yn ystyried dealltwriaeth eang yr hyfforddwr o:

- *Safonau hyffor*ddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol Cymru
- modiwl e-ddysgu Grŵp A
- cynnwys grŵp B o *becyn hyffor*ddiant ymwybyddiaeth diogelu sylfaenol Cymru Gyfan.

## Gwerthuso'r hyfforddiant

Dylai'r comisiynydd ofyn i'r hyfforddwr:

- sut y byddant yn gwerthuso'r dysgu sy'n digwydd yn ystod y cwrs
- sut y byddant yn gwerthuso profiad y dysgwyr o'r cwrs
- sut y gallent werthuso effaith hirdymor y dysgu ar ymarfer.

Efallai y bydd y comisiynydd yn dymuno mynchu neu wylio rhywfaint, neu’r cyfan, o’r hyfforddiant.

Gallant wneud hyn yn bersonol, neu anfon rhywun i fynychu ar eu rhan, a gofyn am adborth uniongyrchol gan y dysgwyr.

Gall y comisiynydd ddefnyddio’r adborth a’r gwerthusiad i benderfynu a fydd yn llogi’r un hyfforddwr yn y dyfodol.

## GDPR, cyfrinachedd a chodi pryderon mewn hyfforddiant

Bydd disgwyl i’r hyfforddwr drin gwybodaeth bersonol pob dysgwr â pharch yn unol â GDPR. Dim ond ar gyfer yr hyfforddiant y maent ar fin ei gynnal y gallant ddefnyddio’r wybodaeth hon.

Gall dysgwyr godi materion neu ofyn cwestiynau yn yr hyfforddiant y gallai fod angen i'r corff comisiynu eu hystyried.

Dylai'r hyfforddwr rannu'r rhain gyda'r comisiynydd.

# Atodiad 2: yn gryno: anghenion hyfforddi

Crynodeb o'r anghenion hyfforddi

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 13 Tachwedd 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/atodiad-2-yn-gryno-anghenion-hyfforddi am y fersiwn diweddaraf.

## Grŵp A

### Hyfforddiant cychwynnol

- Cwblhau'r modiwl e-ddysgu cyn dechrau gweithio, neu fel rhan o'r cyfnod sefydlu.

### Hyfforddiant gloywi

- Bob tair blynedd.
- Yn dilyn newid i ddeddfwriaeth diogelu.
- Pan fydd cyflogwr neu reolwr yn dweud bod ei angen.

### Faint o oriau?

- Un i dair awr.

## Grŵp B

### Hyfforddiant cychwynnol

- Fel rhan o gyfnod sefydlu neu brawf (chwe mis cyntaf).
- Efallai y bydd angen gwneud hyfforddiant ar bynciau penodol sy'n berthnasol i'r rôl, os yw'r cyflogwr neu'r rheolwr yn meddwl bod angen hynny.

### Hyfforddiant gloywi

- Lleiafswm o dair blynedd.
- Os oes newid i gyfraith diogelu.
- Pan fydd cyflogwr neu reolwr yn dweud bod ei angen.

- Gall hyn gynnwys dysgu a datblygu rôl-benodol ehangach sy'n benodol i'r rôl.

**Faint o oriau?**

- Lleiafswm o chwe awr, y gellir ei wneud mewn un neu fwy o sesiynau.

## Grŵp C

**Hyfforddiant cychwynnol**

- Unrhyw hyfforddiant y mae'r rheolwr cyflogi yn meddwl sydd ei angen cyn iddynt ddechrau eu rôl.
- Wyth awr yn ystod y cyfnod prawf (chwe mis cyntaf), ac unrhyw ddysgu ychwanegol sy'n benodol i'r rôl.

**Hyfforddiant gloywi**

- Yr hyfforddiant generig.
- Dysgu sy'n benodol i'r rôl.
- Yn cael ei ddiweddaru bob tair blynedd.

**Faint o oriau?**

- O leiaf wyth awr o’r hyfforddiant generig, ynghyd â hyfforddiant sy'n benodol i'r rôl.

## Grŵp D

**Hyfforddiant cychwynnol**

- O leiaf wyth awr yn ystod y cyfnod prawf (chwe mis cyntaf).
- Unrhyw ddysgu sy'n benodol i'r rôl.

**Hyfforddiant gloywi**

- Dysgu sy'n benodol i'r rôl, dros ddwy i dair blynedd.

**Faint o oriau**?

- O leiaf 24 awr dros dair blynedd.

## Grŵp E

**Hyfforddiant cychwynnol**

- Lleiafswm o chwe mis.

**Hyfforddiant gloywi**

- Cynnal log DPP ffurfiol i gofnodi dysgu a datblygiad dros dair blynedd.

**Faint o oriau?**

- Lleiafswm o 24 awr dros dair blynedd.

## Grŵp F

**Hyfforddiant cychwynnol**

- Modiwl e-ddysgu cyn dechrau gweithio, neu fel rhan o sefydlu neu gyfnod prawf (chwe mis cyntaf).

**Hyfforddiant gloywi**

- E-ddysgu Grŵp A
- Datblygiad gloywi pwrpasol bob tair blynedd (o leiaf).

**Faint o oriau?**

- Lleiafswm o chwe awr.